**Portread o Hector Ariel, Y Cymro, Mehefin 30, 2001**

# CYFLWYNO UN O ENWAU'R WLADFA

30 Mehefin 2001.

## Portread o Hector Ariel gan FABIO GONZALEZ

MAE pawb yn ei 'nabod yn Chubut a mae o nawr yn dechrau cael ei 'nabod yng Nghymru hefyd.

Hector Ariel ydy o i bobl Gaiman, y pentref yn Nyffryn Camwy lle mae o wedi byw ers ei eni. Hector MacDonald yw ei enw swyddogol a fel Mac Patagonia mae o'n hoffi arwyddo rhai o'i weithiau.

Mae pob un o'r enwau hyn yn gwneud i bobl feddwl am gerddoriaeth, ei faes proffesiynol, ei natur a'i fyd.

Ar lwyfannau holl eisteddfodau Y Wladfa, o'r rhai 'mini' i'r rhai mawr, mae Hector i'w weld o hyd. Mae pawb sydd wedi mentro i fynd i fyny i ganu - plant, unawdwyr a chorau - wedi cael ei gyfeiliant ar y piano.

### Perfformio

Weithiau mae'r grwpiau roc a'r grwpiau jazz yn cael gafael arno i wneud iddo fo berfformio gyda nhw. Mae'n bosibl ei weld o'n chwarae cerddoriaeth werin Yr Ariannin gyda'r piano, y gitâr, y charango, y bombo neu unrhyw offeryn sydd ar gael, a hynny mewn theatr ar achlysur ffurfiol neu mewn tafarn heb ddim rhybudd i'r cyhoedd.

Mae pob arddull gerddorol yn edrych, ac yn swnio yn gyfarwydd iddo fo. Mae hi mor gyffredin i'w weld o yn y capel yn cyfeilio i emyn Gymraeg ar yr organ ag ydy hi i'w weld o yn yr Eglwys Gatholig yn cyfeilio'r Offeren gan Faure.

Os oes cerddoriaeth, mae Hector mor frwdfrydig efo prosiect teledu ag y mae o efo prosiect ei ddisgyblion allweddellau. Er ei fod o'n mynd ymlaen yn ei yrfa gerddorol ac wedi cystadlu ddwy waith yn *'Cân i Gymru'*, mae o'n dal i ddysgu miwsig i blant yn yr Ysgol Gerdd yn Gaiman.

Yn aml, mae'r brwdfrydedd hwn yn gwneud iddo adael pob peth arall i'w ymroi ei hunan i gyflawni'r syniad diweddaraf sy'n mynd â'i fryd. Dydy ei ffrindiau ddim yn synnu pan dydy o ddim yn ymddangos i gael 'asado' ar nos Wener.

Maen nhw'n gwybod yn iawn ei fod o wedi aros gartref i gyfansoddi. Gwnaeth y boi tal, gwallt coch yn ei dridegau ddychryn pawb yn y pentref pan aeth i'r Andes at Sonia,ei gariad. Roedd hi'n athrawes gerdd ac yn arweinyddes côr yn Esquel.

Ond, ar ôl blwyddyn hebddo fo, aeth pawb i'r Capel Methodistaidd yn Gaiman i'w groesawu yn ôl i'r pentref. Bu'r briodas yn llawn cerddoriaeth ac roedd Hector Ariel ei hun yn canu'r 'marcha nupcial'.

Ar hyn o bryd mae o wrthi'n recordio eto yn ei stiwdio sain yn ystafell gefn ei dy newydd yn Nyffryn Camwy - ac mae 'na arweinyddes côr arall yn Gaiman!



Hector Ariel

